CYFARWYDDIADOL

Rhan o beth yw hwn ydych chi'n meddwl? Pam?

Beth sy'n dangos mai cyfarwyddiadau sydd yma?

# Cwmni Pop – gorn



Mae Cwmni Pop-gorn yn galw pecynnau 250g o'u popcorn taffi yn ôl gan ei fod yn cynnwys llefrith nad yw'n cael ei gydnabod yn y cynhwysion. Mae pobl sydd ag alergedd i lefrith mewn perygl o gael adwaith drwg pe byddent yn ei fwyta.

Mae'r popcorn wedi'i becynnu mewn bagiau ffoil 250g. Mae'r dyddiad Mai 2017 fel dyddiad gorffen ac mae'r rhifau 54630 o dan y dyddiad hwn.

Nid oes unrhyw achos o salwch oherwydd adwaith hyd yma.

Mae'r adalw'n digwydd ar ôl darganfod bod y cynhwysion anghywir wedi'u cynnwys yn y pecynnau. Yn dilyn ymchwiliad gwelwyd bod y camgymeriad wedi'i wneud gan yr adran gynhyrchu.

Bydd angen i gwsmeriaid sydd wedi prynu'r cynnyrch Popcorn taffi 250g, côd 54630 a dyddiad gorffen Mai 2017 daflu'r pecynnau. Os oes unrhyw gwestiynau gellir cysylltu â Chwmni Pop-gorn, Uned 5, Stad Ddiwydiannol Cae Sarn, Gwynedd LL57 2YN, neu www.pop-gorn.cy. neu ffonio 01248 654321. Mae'r Gwasanaeth i Gwsmeriaid ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener ac o 8 y bore tan 6 y nos. Gall cwsmeriaid sydd wedi prynu popcorn taffi gysylltu â Pop-gorn am gynnyrch newydd.

Beth yw ystyr 'cydnabod', 'adwaith', ac'adalw'?

Pa mor angenrheid-iol fyddai defnyddio'r darn hwn i Gwmni Pop-gorn ydych chi'n meddwl?

Pa mor glir yw'r cyfarwyddia-dau? Oes modd eu gwneud yn gliriach yn eich barn chi?